

# Adolygiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CCG 2017-2018

 **0300 123 8084**

 [www.ccgwynedd.org](http://www.ccgwynedd.org)

 [www.facebook.com/ccgwynedd](https://www.facebook.com/ccgwynedd)

 [@CartrefiGwynedd](https://twitter.com/CartrefiGwynedd)



## Cyflwyniad

- Cafodd Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2015-19 Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) ei gymeradwyo mewn cyfarfod Bwrdd ar 20 Ionawr 2016.
- Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dangos sut y bydd CCG yn cyflawni ei amcanion cydraddoldeb ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt.
- Mae amcanion cydraddoldeb CCG yn elfen bwysig o'r Cynllun Strategol Cydraddoldeb.
- Mae CCG wedi gweithio efo Tai Pawb, sefydliad sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn tai yng Nghymru er mwyn adnabod yr 8 amcan cydraddoldeb.
- Bydd sawl pwynt gweithredu ar gyfer pob amcan cydraddoldeb. Byddant yn adnabod gwelliannau i'w rhoi ar waith dros bedair blynedd er budd ein tenantiaid, staff a chymunedau.
- Bydd y cynllun hwn yn sicrhau fod CCG yn cyflawni ei oblygiadau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Amcan 1: Hybu diwylliant cynhwysol a dangos drwy ein gwaith ein bod yn dathlu amrywiaeth

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o staff wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth .
- Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant gan fod sesiwn hyfforddiant yn cael ei drefnu bob blwyddyn yn benodol ar gyfer staff newydd.
- Mae'r Bartneriaeth Tenantiaid wedi derbyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mis Ionawr 2015.
- Rhaid i Gontractwyr ddangos eu dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal fel rhan o'r broses cymeradwyo cyflenwyr.
- Mae CCG yn aelodau o Rwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru (NWREP), Tai Pawb a Chwarae Teg.
- Mae CCG wedi cytuno i Gomisiwn Llywyddol CIH ar arweinyddiaeth a chydaddoldeb i gyflawni yn erbyn 10 her erbyn 2020. Dyma'r heriau:
  - Gwybod gwneuthuriad eich cymunedau ac ystyried yn flynyddol sut gallwch wella amrywiaeth eich bwrdd, arweinyddiaeth a thimau staff.
  - Rhoi data cysylltiedig ag amrywiaeth at ei gilydd ar gyfansoddiad eich (1) bwrdd (2) tîm gweithredol a (3) cyfanswm swm gweithlu a'i gyhoeddi mewn fformat hawdd troi ato yn eich adroddiad blynyddol.
  - Herio'r holl staff (ac asiantaethau allanol) sy'n gyfrifol am recriwtio i sicrhau bod yr holl restrau byrion yn cynnwys ymgeiswyr priodol gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
  - Sicrhau bod aelodau staff sydd ynghlwm â recriwtio wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol i sicrhau prosesau recriwtio teg.
  - Sefydlu targed uchelgeisiol at ddibenion recriwtio i'r bwrdd / pwyllgor gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sicrhau bod eich strwythur llywodraethu yn gynrychioliadol o'r cymunedau ehangach rydych chi'n gweithio ynddynt.

- Cael strategaeth dilyniant rheoli doniau ar waith sy'n adlewyrchu egwyddorion cynhwysiant ac amrywiaeth, er mwyn i'r holl staff allu llwyddo a gwneud cynnydd, os oes ganddynt y sgiliau a'r gwerthoedd iawn.
- Canfod a darparu cyfleoedd mentora a hyfforddi priodol i staff ac aelodau bwrdd - yn eich sefydliad eich hun ac/neu gydag asiantaethau allanol.
- Gwneud hyfforddiant amrywiaeth yn orfodol i'r holl staff, a defnyddio'ch strategaeth cyfathrebu a diwylliant corfforaethol i sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei ymgorffori yng ngwerthoedd y sefydliad.
- Hyrwyddo'r achos busnes ar gyfer gweithlu ac arweinyddiaeth amrywiol - anogwch eich cydweithwyr, cymheiriaid a phartneriaid i gytuno i'r heriau.
- Cytuno i Siarter CIH ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gweithio tuag ato.
- Mae erthyglau newyddlen tenantiaid a gyhoeddwyd yn cynnwys hybu wythnos Rhuban Gwyn (sef ymgyrch yn erbyn Cam-drin Domestig); Cynllun Wardeniaid Ifanc; Sêr Cymunedol, Partner Cymunedol y Flwyddyn a diogelu grwpiau bregus.
- Gall cyhoeddiadau allweddol CCG fod ar gael mewn print bras, a lle'n bosib, bydd CCG yn darparu cwsmeriaid gyda chyhoeddiadau yn y ffurf neu iaith o'u dewis hwy (e.e. Pwyleg)
- Proses a chanllawiau wedi'u datblygu ar gyfer trefnu cyfathrebu cynhwysol - print bras, braille, hawdd ei ddeall ayyb
- Mae CCG wedi'i achredu fel cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.
- Mae Strategaeth Effaith Gymunedol (2018-2030) wedi'i ddatblygu. Rhaid i ni feddwl yn y tymor hir, gweithio â'n pobl a'n cymunedau, ceisio atal problemau ac ymateb i anghenion a dyheadau. Byddwn yn ystyried effaith ein penderfyniadau ar ein pobl fydd yn byw eu bywydau yn ein cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol.

## Amcan 2: Sicrhau fod cydraddoldeb yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad dydd i ddydd

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Swyddog Prosiectau Corfforaethol wedi ei adnabod fel prif swyddog cydraddoldeb staff.
- Mae dal data am bob tenant a phreswylwyr newydd yn digwydd fel busnes yn ôl yr arfer ers mis Medi 2015.
- Nodyn atgoffa blynyddol yn cael ei yrru i denantiaid i ddiweddarau ein cofnodion.
- Ymgyrchoedd amrywiol wedi eu cynnal i ddal data fel ac y mae cyfleoedd ar gael.
- Proses asesiad effaith cydraddoldeb wedi ei dreialu a'i gyflwyno.
- Blaen adroddiadau wedi'u diweddarau sy'n gofyn am dystiolaeth bod asesiad effaith cydraddoldeb (AEC) wedi ei gwblhau.
- Hyfforddiant wedi'i ddarparu ar lefel Uwch Reolwyr.
- Canllawiau AEC wedi'u cynhyrchu.
- Aelodau o staff wedi'u hadnabod fel ceidwad AEC.
- Mae CCG yn sicrhau fod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o brosesau caffael CCG, gan gynnwys rheoli contractwyr.
- Mae 'Insight Solution' wedi'i brynu gan Housing Partners a bydd o fudd i CCG gyda'r gwaith o gasglu data am denantiaid (tenant profiling) .
- Mae pob aelod o staff wedi mynychu sesiwn hyfforddi Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.
- Mae Diogelu yn awr yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Sesiwn Anwytho Corfforaethol.
- Bydd sgysiau bocs tŵls ar ddiogelu yn dasg barhaus.
- Mae polisi Diogelu CCG yn cael ei adolygu

### Amcan 3: Gweithio gyda phartneriaid i ymateb yn effeithlon a mynd i'r afael gydag achosion o drosedd casineb a cham-drin domestig

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Polisiau a gweithdrefnau perthnasol wedi'u hadolygu.
- Staff perthnasol wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol ar faterion diogelu.
- Partneriaid wedi'u hadnabod er mwyn rhannu gwybodaeth i adnabod yn well ac atal digwyddiadau a chefnogi dioddefwyr.
- Mae CCG yn mynychu'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC).
- Mae CCG yn mynychu cyfarfod Tîm Ymyrraeth Gynnar wythnosol â'r heddlu a phartneriaid eraill.

### Amcan 4: Gwella mynediad a phrofiad cwsmeriaid o ddefnyddio ein gwasanaethau

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- CCG yn cynnig apwyntiadau yn eu cartref i denantiaid
- Mae'n swyddfeydd a'n cyfleusterau yn hygyrch.
- PEEPS ar gael i denantiaid os oes angen.
- Fframwaith Cyfranogi Tenantiaid newydd wedi ei lansio yn 2016. Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi ei lansio fel rhan o'r fframwaith.
- Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd.
- Mae'r strategaeth cynhwysiant digidol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a fydd yn golygu newid cyfrwng wrth i ni ddod yn fwy digidol yn y ffordd yr ydym yn cysylltu â chwsmeriaid a'u cynorthwyo i gael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein.
- Trefn Gwyno wedi'i hadolygu i sicrhau y gellir cael mynediad at y drefn a bod y gwasanaeth cwyno yn cael ei hybu i bob grŵp.
- Mae gwaith wedi dechrau ar adnabod gofynion y wefan gorfforaethol newydd.

### Amcan 5: Defnyddio gwybodaeth cydraddoldeb ar gyfer cynllunio gwasanaeth, ac i wella canlyniadau, mynediad a boddhad

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cwynion yn cael eu monitro a gwersi yn cael eu dysgu yn cael eu holrhain i sicrhau nad oes unrhyw gwsmer yn profi gwahaniaethu a chael y gwasanaeth gorau un gan CCG.
- Adroddiad yn cael ei redeg bob chwarter ar broffil y tenantiaid sy'n cwyno i gynnwys ethnigrwydd, anabledd ayyb.
- Canlyniadau arolwg boddhad blynyddol hefyd yn dadansoddi darganfyddiadau i grwpiau oed, ethnigrwydd, crefydd, anabledd ayyb.

## Amcan 6: Cael gweithlu amrywiol sy'n cael ei gefnogi

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol.:

- Mae gwybodaeth am staff ac ymgeiswyr yn cael ei goladu ond ar hyn o bryd nid yw'n cael ei fonitro.

## Amcan 7: Adnabod a chyfarch unrhyw fylchau o ran tâl i nodweddion sydd wedi'u diogelu

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Mae ymarfer ddesg wedi'i gynnal a gofynnwyd am gyngor gan ymgynghorwyr sy'n arbenigo yn y maes dyfarnu cydnabyddiaeth. Mae CCG yn sefydliad risg isel o ran hawliadau am dâl cydradd.
- Adroddiad bwch cyflog rhwng y rhywiau 2017 wedi'i greu a'i uwchlwytho ar y wefan gorfforaethol.

## Amcan 8: I gael cynrychiolydd Bwrdd sy'n ymgysylltu ac yn craffu ar berfformiad CCG o ran cydraddoldeb

Ers cymeradwyo Cynllun Strategol Cydraddoldeb CCG ym mis Ionawr 2016 rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Hyrwyddwyr Pencampwr y Bwrdd wedi'i benodi.
- Wedi ymgysylltu gyda bws 'Dewch ar y Bwrdd' ond gan fod amrywiaeth y Bwrdd yn dda ar hyn o bryd, mae CCG o'r farn nad oedd yn briodol ymgysylltu gyda rhaglen Dewch ar y Bwrdd yn 2015.

## Gwaith pellach i'w ymgymryd ag ef o fewn y 12 mis nesaf ...

- Hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu ar gyfer aelodau Partneriaeth Tenantiaid a'r Bwrdd.
- Cyflawni ymgyrch Comisiwn Llywyddol CHC ar arweinyddiaeth ac amrywiaeth '10 erbyn 20'
- Adnabod mwy o erthyglau newyddlen
- Sicrhau bod pob swyddfa yn hygyrch.
- Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer y system fusnes craidd newydd yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar Lanhau Data. Bydd data presennol CCG yn cael ei drosglwyddo i'r system newydd cyn i'r tîm prosiect gychwyn gweithio ar adeiladu'r system, ni ddylai'r data sy'n trosglwyddo gynnwys unrhyw ddyblygiad, dylid sicrhau bod y fersiwn yn y fformat cywir a bod y fersiwn diweddaraf yn trosglwyddo. Ar ôl cwblhau'r ymarfer glanhau data cychwynnol bydd CCG yn cynnal dadansoddiad bwch ar y data yr ydym wedi ei gasglu am denantiaid,

yn adolygu ac yn diweddarau yn ôl yr angen. Bydd hyn yn ymarfer parhaus yn ystod ac ar ôl cyflwyno'r system fusnes craidd newydd.

- Bydd sgysiau bocs tŵls yn cael eu cyflwyno i staff rheng flaen ar sut i adnabod a rhwystro digwyddiadau a chynorthwyo dioddefwyr.
- Bydd gwefan a sianeli cyfathrebu eraill CCG yn cael eu hadolygu fel rhan o'r prosiect Trawsnewid Digidol.
- Hybu asesiadau effaith cydraddoldeb ymhlith staff.
- Sicrhau bod amserlen ar gyfer cwblhau sgrinio AEC ac adolygiad polisi yn cael ei bennu a chadw ato.
- Bydd gwiriadau ar waith ar gyfer pob polisi i sicrhau sgrinio perthnasedd ac os oes angen bod AEC llawn wedi'i gwblhau cyn i bolisi dderbyn cymeradwyaeth.
- Cyfathrebu a rhannu'r wybodaeth a geir ar ôl cynnal AEC.
- Bydd Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CCG yn cael ei adolygu i gynnwys Aelodau'r Bwrdd.